

EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS SPARC A CHANOLFAN MILENIWM CYMRU

PROSIECT POWERFUL INTERVENTIONS

Mae Miranda Ballin, Cyfarwyddwr Artistig Sparc, ac Alan Humphreys, Cynhyrchydd Dysgu Creadigol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn dweud wrthym am ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ar brosiect partneriaeth dan arweiniad pobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf.

AM Y PROSIECT

Powerful Interventions yw'r comisiwn cyntaf dan arweiniad pobl ifanc gan Ganolfan Mileniwm Cymru, sy'n deillio o'r bartneriaeth Together Stronger a'r gwaith a grëwyd rhwng Sparc, Canolfan Mileniwm Cymru a Bethan Marlow ers haf 2018.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Fe wnaethom ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i sicrhau ffocws, eglurder a chytundeb rhwng aelodau'r staff ar draws Canolfan Mileniwm Cymru a Sparc, yn ogystal â'r artist arweiniol, Bethan Marlow, ar hyd y prosiect. Roedd hyn ochr yn ochr â gwerthuso parhaus a chasglu gwybodaeth trwy bartneriaeth.

Roedd hyn yn neilltuol o ddefnyddiol i'r prosiect hwn, gan ei fod wedi ei wreiddio mewn gweithio mewn partneriaeth, ac roeddem am ymdrin â'r cwestiynau canlynol a allai effeithio ar waith yn y dyfodol:

- Sut y mae sefydliad mawr (Canolfan Mileniwm Cymru) yn gweithio'n effeithiol gyda phrosiect cymunedol fel Sparc a dysgu o hynny er mwyn creu newid?
- Sut y mae artist arweiniol yn gweithio'n effeithiol gyda grŵp profiadol o weithwyr celf pobl ifanc/gweithwyr creadigol i gyd-gynhyrchu gwaith gyda chyfranogwyr?

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Oherwydd natur y bartneriaeth, rydym yn gweithio ar draws tîm o:

- 5 aelod o staff Sparc
- 2 aelod o staff Dysgu Creadigol Canolfan Mileniwm Cymru
- 1 artist arweiniol – Bethan Marlow
- Artistiaid llawrydd a staff cefnogi
- Cyfraniad ychwanegol gan aelodau eraill o staff, yn arbennig rhai Canolfan Mileniwm Cymru, ar adegau amrywiol

Ar ben hyn mae Bethan Marlow yn gweithio o Miami y rhan fwyaf o'r amser. Felly, rhwng Haf 2018 a Gwanwyn 2020, penderfynwyd dynodi cyfnodau o amser pan fyddai Bethan yn gweithio gyda ni yn bersonol ar y prosiect.

Yn dilyn y pandemig byd-eang, symudodd y gwaith ar-lein, oedd yn golygu y gallai Bethan gyfrannu llawer mwy at y sesiynau o wythnos i wythnos. Ond, yn ystod y cyfnodau gwaith a drefnwyd, roeddem yn sicrhau ein bod yn cynnal cyfarfodydd datfriffio gyda'r timau, a defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i arwain y sgwrs, gan ddefnyddio'r posteri A3 i gyfeirio at wahanol benawdau a phynciau. Fe wnaethom gofnodi rhai o'r sgwrsiau yma ar gyfer y dyfodol, a gwneud nodiadau hefyd.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Fe wnaeth yr Egwyddorion ganiatáu i ni sicrhau'n gyson ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir ar y prosiect, sicrhau bod cyfranogwyr yn ganolog i'r gwaith, ac yn hanfodol, cadw pawb ar yr un dudalen. Cododd gweithio ar draws timau ac artistiaid gwahanol fel hyn anawsterau o ran cyfathrebu, ac roedd yr eiliadau yma i ddwyn pawb at ei gilydd (yn llythrennol a throsiadol) yn eiliadau pwysig ar ddiwedd pob cyfnod sylweddol o waith.

AWGRYMIADAU DA

- Defnyddiwch y penawdau ar gyfer pob Egwyddor fel canllaw a gwneud iddyn nhw weithio ar gyfer eich prosiect chi. Peidiwch â chael eich llethu gan y posibiladau o ran beth i'w drafod, rhaid i chi ei deilwra ar gyfer eich prosiect a sicrhau eich bod yn trafod yr agweddau pwysicaf.
- Meddyliwch am yr Egwyddorion Ansawdd fel rhestr wirio ddefnyddiol iawn i'w defnyddio wrth gynllunio a monitro'r prosiect, i sicrhau eich bod yn cynnwys popeth. Maent yn fwy na dim ond ffordd o warantu 'ansawdd'.

RHAGOR O WYBODAETH

<https://sparc.wales/cy/hafan>

www.valleyskids.org

www.wmc.org.uk



CANOLFAN
MILENIWM
CYMRU
WALES
MILLENNIUM
CENTRE®



ArtWorks
Cymru

